CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFFREDINOL 16 MEDI 2008

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng. M Powell-Jones

Cynghorwyr
H W Roberts, W R Owen, H Edwards, R Anderson , O T Owen, W T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, A Kirk, M Davies, R Bonner-Pritchard, W LL Davies

Siaradwr Gwadd : Hywel Williams A.S.

Croesawodd Y Maer i'r cyfarfod

Siaradodd ar y pwyntiau canlynol

- System Credit treth, gan egluro ei fod wedi cael dipyn o lwyddiant yn helpu unigolion ar sefyllfa. Ac wedi arbed pres sylweddol iddynt
- Sefyllfa tai- cydnabod bod y sefyllfa yn un bregus, ac nifer sydd yn mynychu y cymorthfeydd yn trafod y pwnc. Y gobaith ydi y bydd Cynghorau Sir yn cael yr hawl i beidio gwerthu tai cyngor yn y dyfodol fydd yn arbed rhywfaint ar y sefyllfa
- Is swyddfeydd bost – wedi cynnal nifer o gyfarfodydd lleol ar y pwnc a dros 300 wedi mynychu. Cannoedd wedi ymateb trwy'r system cerdyn post yn gwrthwynebu'r sefyllfa. Poeni er nad oes unrhyw swyddfa yn cau yng Nghaernarfon ar hyn o bryd bod angen defnyddio cymaint a phosibl ar yr swyddfeydd er mwyn eu gwarchod. Os ydi swyddfa bost yn colli'r cytundeb am y cyfrif cerdyn mi fydd na o leiaf 200 arall yn gorfod cau. Ydi pawb yn ymwybodol bod chi yn medru cael ei gwasanaeth ffon trwy'r swyddfa bost rwan?
- Erfyn i bobl ddod i'r cymorthfeydd am gymorth

Gofynnodd y Cynghorwyr a fyddai cystal ac edrych i mewn i'r canlynol

- Tai – bod y system pwyntiau ddim yn gweithio yn lleol
- Tai – beth ydi'r opsiwn 4
- Tai – os ydi'r "stock transfer" yn mynd trwodd ydi'r hawl i werthu yn mynd i'r corff newydd
- Tai – gofyn sut mae cyrraedd y safonau newydd erbyn 2012

Cytunodd Hywel Williams i fynd ar ôl y pwyntiau yma ac adrodd yn ôl os ddaw unrhyw ymateb

1. Ymddiheuriadau

Cyng. G Parry, Cyng. A Roberts, Cyng M Thomas

2. Datgan Buddiant Personol

W T Owen – Cist Gwynedd
W R Owen – Cist Gwynedd a Cynllun UDP

3. Eitemau brys

- Diweddariad ar Partneriaeth Diogelwch gan Cyng. W Ll Davies
- Gweithdy – EU Funding

4. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau - (dim wedi ei dderbyn)

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

6. Cist Gwynedd

Penderfynwyd

Gofyn wrth Cyngor Sir am enghreifftiau o geisiadau llwyddiannus, ac iddynt ddod draw fel siaradwyr gwadd

7. Goleuadau Nadolig

(eitem wedi symud o'r Cyngor ar hawl i weithredu wedi ei roi)
Adroddodd y clerc bod ddogfen Iechyd a diogelwch wedi dod yn ôl, ac bod nifer helaeth o'r goleuadau presennol ddim yn dod i fynny i safon

Penderfynwyd

- Gofyn wrth Cyngor Sir am costau trwsio y goleuadau presennol
- Gofyn am breakdown o'r costau gosod gan Blachere fesul stryd
- Gofyn wrth Tesco a Morrison am noddi (Cyng. R Anderson am wneud hyn)
- Gofyn wrth Mulcair noddi'r goeden Nadolig ar y Maes

(gadawodd Cyng A Kirk 7.25)

8. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. C.T.C.

Diweddariad gan Cyng. A. Y. Williams

Wefan newydd sef www.walledtowns.co.uk
Rali hen geir – Medi 28 yng Nghaernarfon rhwng 12.00-1.30
Cystadleuaeth Bowlio – dim tîm o Gaernarfon eto eleni
Golff- Dinbych wedi curo yn cael ei gynnal yma flwyddyn nesaf Awst 14
Peldroed heb gael ei gynnal eleni – dyddiad ar gyfer flwyddyn nesaf Mehefin 14 – Cyng A Bohana yn trefnu
Yn 2010 mae Executive yn dod draw ac mae ofyn i bob tref gyfrannu £3000 at y costau £1500 flwyddyn nesaf a £1500 y flwyddyn wedyn

Cinio blynyddol yn Dinbych mis Ionawr oddeutu £25 pawb sydd a diddordeb i roi pres i'r clerc

Penderfynwyd
Derbyn yr adroddiad a diolch i Cyng. A Y Williams
Trefnu Tîm Bowlio - Cyng. R Owen i fod yn gyfrifol
Trafod yr arian yn y dyfodol

10. Grwp Rheoli Y Maes

Diweddariad gan y Clerc

Clerc yn adrodd bod Cyngor Gwynedd yn dymuno i'r Cyngor Tref arwain ar y mater. Sefydlu'r grwp o bobl sydd a diddordeb mewn gweithgareddau ar y maes, ynghyd a'r adran trwyddedu, tacsis, a pobl farchnad

Penderfynwyd
Bod angen mwy o fanylion cyn penderfynu – clerc i greu dogfen o pwy fydd ar y pwyllgor a sut fydd o yn gweithredu cyn y cyfarfod nesaf

(pleidleisiodd Cyng. WR Owen a Cyng. A Bohana yn erbyn)

11. Cyngor Gwynedd

Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

12. E-bost Eirian Jones

Penderfynwyd
Dim mwy yr ellir y Cyngor yma wneud – derbyn er gwybodaeth ac anfon copïau o'r llythyrau ymateb allan

13. **Un Llais**

Rhaglen 17 Medi 2008
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

14. Cwestiynau

Dim un

15. Partneriaeth Diogelwch

Adroddiad Cyng W Ll Davies
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Gwynedd
Cyfarfod gynhaliwyd yn y Ganolfan Chwaraeon Caernarfon ar nos Iau, Medi11eg
Roedd 4 o gynghorwyr tref Caernarfon yn bresennol.
Cadeiriwyd gan Mr Dafydd Lewis
Pwrpas y bartneriaeth yw gweithio gyda'n gilydd i leihau troseddau ac anhrefn.
Roedd y cyfarfod wedi ei drefnu i weld faint o ymwybyddiaeth oedd gan y cyhoedd o'r PDC yma yng Ngwynedd.
Mae'r bartneriaeth yn cynnwys –

- Heddlu Gogledd Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Awdurdod yr Heddlu
- Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd

Mae nifer o fudiadau yn perthyn i'r bartneriaeth

- Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru; Llys Ynadon Gogledd Cymru; Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; Cydlynydd Diogelwch a Chamddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru; Gwasanaeth Cyfiandwer Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn; Tim Swyddfa Gartref Cymru..

Maent yn gyfrifol am ddarparu dau gynllun - cynllun trosedd ac anhrefn
- Cynllun camddefnyddio sylweddau

Mae nifer o flaenoriaeth cenedlaethol
- lleihau troseddau
- lleihau ail-droseddu
- camddefnyddio sylweddau
- cynyddu hyder yn yr asiantaethau lleol
- terfysgaeth
- taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol

Blaenoriaethau lleol - ymosodiadau (assaults)
- trais yn y cartref
- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- gyrru gwrthgymdeithasol
- difrod troseddol
- cyffuriau dosbarth A
- i gynyddu lefel o sicrwydd a hyder yn y cyhoedd.

Cafwyd cyfle i drafod y blaenoriaethau hyn mewn grwpiau gyda phawb yn adrodd yn ôl. Cafwyd cyfle hefyd i weld sut roedd y blaenoriaethau hyn yn berthnasol i'n cymuned ni.
Tanlinellwyd yr angen am roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Bartneriaeth ac am roi llawer mwy o sylw i'r hyn maent yn ei wneud. Roedd nifer o bethau da yn digwydd o fewn y gymdeithas ond yn anffodus mae'r pethau negyddol yn cael llawer mwy o sylw gan mai'r rhain sy'n creu newyddion.

Tybed a fuasai'n beth da i'r Cyngor neilltuo ychydig o amser rhyw dro yn y dyfodol (tua 15 – 30 munud – dim mwy) i drafod yr uchod ac anfon ein sylwadau i'r PDC

1. Pa faterion sy'n bwysig i ni fel Cyngor a thrigolion tref Caernarfon?
2. Beth yw ein blaenoriaethau ni yma yng Nghaernarfon?
3. Sut y gall y PDC ein helpu ni a dod yn ymwybodol o'n hanghenion?

Wil Lloyd Davies
Arnold Bohana
Alun Roberts
Ioan Thomas

Penderfynwyd

Diolch i'r Cyng. W Ll Davies am yr adroddiad a symud y tri cwestiwn i'r pwyllgor nesaf

16. Gweithdy Arian UE

Gweithdy yn cael ei gynnal lawr yng Nghaerfyrddin 10 fed Hydref

Penderfynwyd

I'r Clerc fynychu a llenwi car efo unrhyw un arall sydd a diddordeb a cynnig lle i aelodau o'r Pwyllgor Gefeillio

Gorffenodd y cyfarfod am 7.55

Arwyddwyd..... Dyddiad.....